

Gair i gloi

“O! Arglwydd, adfer ein llwyddiant fel ffrydiau yn y Negef.” (adn. 4)

Beth am ddarllen Salm 126:1–6 ac yna myfyrio

Yr wyf am gloi'r gyfres hon ar yr angen i lanhau ac ail-agor y ffynhonnau y mae Philistiaid ein dydd wedi eu cau drwy awgrymu rhai sylwadau cyffredinol. Yn gyntaf, mae Duw yn ddi-os am inni ail-ddarganfod yr etifeddiaeth ysbrydol, gan ein defnyddio i ddiogelu fod y ffynhonnau a gloddiodd ein tadau yn cael eu diogelu, ac mewn sawl achos, yn cael eu hail-agor.

Ond beth yw'r gwaith ymarferol y mae Duw yn ein galw iddo? Yn sicr mae'n ein galw i edifeirwch, edifeirwch personol, edifeirwch ar ran yr eglwys, ac yna, trwy weddi, trwy bob arf sydd yn agored inni, perswâd, dadl a hyd yn oed gwrthwynebiad ar brydiau, rhaid sicrhau fod dyfroedd y gwirionedd yn cael llifo yn ôl i mewn i fywyd yr Eglwys.

Credaf fod yna gyfle inni fel hyn ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain i weithio a gweddïo er ceisio hyn. A ydym am achub ar ein cyfle? Beth am her y geiriau ydym wedi eu hystyried dros yr wythnosau diwethaf? Beth am yr addewidion y mae Duw yn eu rhoi inni, addewidion sydd yn Iesu yn Ie ac yn Amen. Credaf fod angen i bob gweinidog, arweinydd a phawb mewn awdurdod yn yr eglwys i ail-ddarganfod y ffynhonnau hyn, ac i godi eto er mwyn eu hail-gloddio, eu hagog i'n cenedlaeth. Rhaid ymroi yn hyn i 'undod y ffydd' (Effesiaid 4:13). I'r rhai sydd heb fod yn arweinwyr, dylem uno fel côr o weddïwyr, gan ofyn i Dduw sicrhau methiant gweithgarwch Philistiaid ein dydd. Diogelwch eich Beiblau, dyma Air y gwirionedd. Darllenwch, myfyriwch ynddo bob dydd. Cofiwch adnodau, plediwch y Gair o flaen gorsedd Duw. Uwchlaw popeth, gweddïwch y bydd Duw ei hun yn rhoi ar ein calonau i'w geisio Ef, Ef yn unig. Dyma'r wyrth sydd yn newid ein calon ni, y wyrth a all newid yr Eglwys.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 42:1–3; 44:23–26; Eiseia 41:17–20; Ioan 7:37–39;

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y gall pechadur feiddio gweddïo am waredigaeth?
2. Beth yw addewid Duw i'r sychedig?

Gweddï

Arglwydd, rwy'n gweld fod gennyf fwiad graslon ar gyfer fy mywyd, a gwaith imi ei gyflawni. Dangos i mi fy rhan wrth inni geisio diogelu ffynhonnau'r bywyd yn ein dydd. Paid â gadael imi lesmeirio yn y gwaith, paid â gadael imi golli gafael nnot Ti. Yn enw Iesu. Amen.